Ysgol Gyfun Gŵyr
Gorau byw cyd-fyw

21 Rhagfyr 2020

Annwyl Rieni/Ofalwyr,

Daeth diwedd tymor a ninnau ar drothwy blwyddyn calendr newydd unwaith eto. Hoffwn achub ar y cyfle felly i ddiolch i chi fel rhieni a gwarcheidwaid am y cydweithio hwylus a fu rhyngom yn ystod 2020 ac edrychwn ymlaen yn y flwyddyn newydd i barhau â'r un bartneriaeth.

Wrth i ni edrych ymlaen at ddathlu Gŵyl y Geni, sylweddolwn, i'r Cristion, bod rhyfeddod yr ymgnawdoliad, a dyfodiad duwdod mewn baban yn y preseb, yn cynnig gobaith bywiol ar ddiwedd 2020 fel ar ddiwedd pob blwyddyn. Blwyddyn ddigynsail oedd 2020 mewn cynifer o ffyrdd. Hyderwn y daw haul ar fryn o ran y pandemig, ac y bydd dyfodiad y brechlyn ac ymddygiad cyfrifol o fewn ein cymunedau, yn arwain at obaith o sefyllfa well yn y flwyddyn newydd.

FFARWEL

Dymunwn yn dda i Miss Rachel Jeffreys arth iddi ffarwelio ag Ysgol Gyfun Gwyr i gymryd swydd barhaol yn Ysgol Gyfun Llanilltud Fawr. Bu Miss Jeffreys yn aelod o staff yr Ysgol ers mis Medi, yn addysgu Addysg Grefyddol a'r Fagloriaeth. Diolchwn yn fawr iawn iddi am ei chyfraniad i fywyd yr Ysgol.

COLLEDION

Wrth edrych nôl dros y flwyddyn, mae nifer o'n cymuned, yn ddisgyblion a staff, yn Ysgol Gyfun Gwyr wedi eu bwrw i golled. Mae'n meddyliau a'n gweddïau gyda'r teuluoedd hynny a gollodd anwyliaid oherwydd Covid-19 ac achosion eraill. Cydymdeimlwn yn fawr iawn a nhw. Hoffwn hefyd dynnu ein sylw yn arbennig at deulu'r ddiweddar Alyssia Evans - disgybl ym Mlwyddyn 11 yn Ysgol Gyfun Gwyr a fu farw ar ddiwrnod cyntaf Gorffennaf - wrth iddyn nhw geisio dygymod a'r Nadolig cyntaf ers colli un oedd mor annwyl iddyn nhw - boed i felystra'r atgofion liniaru (i raddau) chwerwder y golled. Ers dychwelyd i'r ysgol ym Medi, bu llawer o staff a myfyrwyr wrthi yn codi arian ar gyfer cronfa a sefydlwyd er cof am Alyssia. Gobeithir trosglwyddo swm sylweddol o arian i'r teulu ar ôl Nadolig.

TÎM SIARAD CYHOEDDUS

Llongyfarchiadau mawr i dîm Siarad Cyhoeddus Ysgol Gyfun Gwyr, sef, Ffion Morgan, Anest

Gwobr Cwricwlwm Ysgolion Schools Curriculum Award
INVESTORS IN PEOPLE | BUDDSODDWYR MEWN POBL
We Are A ... Fairtrade School Rydyn Ni'n Ysgol... Masnach Deg

Ysgol Gyfun Gŵyr
Gorau byw cyd-fyw

Williams a Gwenno Robinson, ar ennill Cystadleuaeth De Cymru y Rotari eleni y tro cyntaf i'r Ysgol gipio'r brif wobr erioed. Ymhyfrydwn yn llwyddiant Anest fel y Cynigydd Gorau a Gwenno y Gwrthwynebydd Gorau a'r Siaradwr Gorau. Tipyn o gamp!

Y CAEAU CHWARAE NEWYDD

Wele fideo pellach o'r meysydd chwarae ar eu newydd wedd - Adeilad Newydd Rhagfyr 2020 . Diolchwn yn fawr iawn i Archie Brown o'r Chweched Dosbarth am gynhyrchu lluniau o ansawdd o'r hen gae rygbi sydd bellach wedi ei rannu i dair rhan – y MUGA, cae 2G, ac ardal 3G. Edrychwn ymlaen yn fawr iawn i ddechrau defnyddio'r cyfleusterau newydd yn ystod gwersi Add Gorfforol a'r awr ginio yn y flwyddyn newydd.

ADRODDIAD BLYNYDDOL A'R PROSBECTWS

Hoffwn hefyd eich hysbysu bydd Adroddiad Blynyddol 2020 yr ysgol a'r Prosbectws newydd 2021/22 ar gael ar wefan yr ysgol yn y flwyddyn newydd - copïau caled ar gael o'r ysgol ar gais o'r swyddfa.

TREFNIADAU DECHRAU'R TYMOR NEWYDD

Yn unol â chyhoeddiad Dinas a Sir Abertawe Ddydd Gwener diwethaf, bydd staff yr Ysgol ar y safle yn ymbaratoi ar gyfer y tymor newydd ar Ddydd Llun 4 Ionawr a Dydd Mawrth 5 Ionawr. Y bwriad, ar hyn o bryd, yw croesawu Blwyddyn 11, Blwyddyn 12, a Blwyddyn 13 nol i'r safle ar **Ddydd Mercher 6 Ionawr 2021. Sylweddolwn ein bod yn rhwym o ystyried unrhyw ddatblygiadau a fydd mewn sefyllfa gyfnewidiol.**

Mae'r ysgol yn dechrau nôl i holl ddisgyblion eraill yr Ysgol ar **Ddydd Iau 7 Ionawr 2021**. Mae'r Awdurdod lleol yn awyddus iawn i ysgolion i ail-agor yn llawn yn y flwyddyn newydd, a byddwn ni yn gwneud hynny ar y 7fed, wedi ystyried y sefyllfa iechyd a diogelwch ar y safle.

NEGES Y NADOLIG

Mae'r Ysgol wedi paratoi fideo byr yn cyfleu neges y Nadolig i'n cymuned. Gwnaed hyn wrth i nifer y disgyblion ar y safle leihau yn syfrdanol dros y tair wythnos olaf. Diolch yn fawr iawn i'r sawl a gyfrannodd at yr eitemau. Dyma'r ddolen ar gyfer y Gwasanaeth Nadolig - Fideo Gwasanaeth Nadolig 2020

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chi i gyd.

Ysgol Gyfun Gŵyr
Gorau byw cyd-fyw

Pennaeth

21 December 2020

Dear Parents / Carers,

We reached the end of term came and we are on the threshold of a new calendar year once again. I would therefore like to take this opportunity to thank you as parents and carers for your cooperation during 2020 and we look forward in the new year to continuing in the same vein.

As we look forward to celebrating Christmas, we realise, to the Christian, that the profundity of the incarnation, and the birth of the deity in the manger, offers real hope at the end of 2020 as at the end of every year. 2020 was an unprecedented year in so many ways. We hope that the light at the end of the tunnel, in the form of the vaccine, and the responsible behaviour of the populace, will lead to an improving situation in the new year.

FAREWELL

We wish Miss Rachel Jeffreys well as she farewells with Ysgol Gyfun Gwyr to take up a permanent post at Llantwit Major Comprehensive School. Miss Jeffreys has been a member of the School staff since September, teaching Religious Education and the Baccalaureate. We thank her very much for her contribution to the life of the School.

LOSSES

Looking back over the year, many of our community, both pupils and staff, at Ysgol Gyfun Gwyr have been bereaved. Our thoughts and prayers are with those families who lost loved ones due to Covid-19 and other causes. We sympathise very much with them. I would particularly to draw our attention to the family of the late Alyssia Evans - a Year 11 pupil at Ysgol Gyfun Gwyr who died on the first day of July - as they try to deal with their first Christmas since their loss – may the sweetness of the memories mitigate (to some extent) the bitterness of their loss. Since returning to school in September, many staff and students have been raising money for a fund set up in memory of Alyssia. It is hoped to pass on a significant amount of money to the family after Christmas.

Gwobr Cwricwlwm Ysgolion Schools Curriculum Award
QS
Heartbeat Award Gwobr Comiad Calon
The Dyslexia Friendly School Standard
SportsMarc NPFA
Investors in People | Buddsoddwyr mewn Pobl
We Are A ... Fairtrade School Rydyn Ni'n Ysgol... Masnach Deg

Ysgol Gyfun Gŵyr
Gorau byw cyd-fyw

PUBLIC SPEAKING TEAM

Congratulations to Ysgol Gyfun Gwyr's Public Speaking team, namely Ffion Morgan, Anest Williams and Gwenno Robinson, on winning this year's Rotary South Wales Competition, the first time the School has ever won the top prize. We are proud of Anest's success as Best Propoer and Winning the Best Opposer and Best Speaker. A great achievement!

THE NEW PLAYING FIELDS

Behold another video of the new playing fields - Adeilad Newydd Rhagfyr 2020 . We thank Archie Brown of the Sixth Form for producing quality pictures again of the old rugby pitch which is now divided into three parts - the MUGA, 2G pitch, and 3G area. We look forward very much to starting to use the new facilities during PE lessons and lunchtime in the new year.

ANNUAL REPORT AND PROSPECTUS

I would also like to inform you that the school's 2020 Annual Report and the new 2021/22 Prospectus will be available on the school website in the new year - hard copies available from the school on request from the office.

ARRANGEMENTS FOR THE NEW TERM

As per the City and County of Swansea's announcement last Friday, School staff will be on site preparing for the new term on Monday 4 January and Tuesday 5 January. At present, the intention is to welcome Year 11, Year 12, and Year 13 back to the site on **Wednesday 6 January 2021**. **We realise that we are bound to consider any further developments in an ever-changing situation.**

The school returns to **all other pupils** at the School on **Thursday 7 January 2021**. The local authority is very keen for schools to fully re-open in the new year, and we will do so on the 7th, subject to the necessary health and safety considerations.

CHRISTMAS MESSAGE

The School has prepared a short video conveying the Christmas message to our community. This was done as the number of pupils on site decreased dramatically over the last three weeks. Many thanks to those who contributed to the items. Here is the link for the Christmas Service – Fideo Gwasanaeth Nadolig 2020

Have a peaceful Christmas and a Happy New Year.

Gwobr Cwricwlwm Ysgolion Schools Curriculum Award
QS
Heartbeat Award Gwobr Comad Calon
The Dyslexia Friendly School Standard
NPFA SportsMarc
Investors in People | Buddsoddwyr mewn Pobl
We Are A ... Fairtrade School Rydyn Ni'n Ysgol... Masnach Deg
Fairtrade

Ysgol Gyfun Gŵyr
Gorau byw cyd-fyw

Head